***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 63

# Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006

**Diwygiadau canlyniadol**

**3.**—(1) Diddymir y darpariaethau a ganlyn—

(a) adrannau 2 (i'r graddau y mae'r adran honno'n gymwys i adran 3), 3 a 9(1) o Ddeddf 1953;

(b) adrannau 77(7), (8) a (9), 79(2) ac 80(4) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**); ac

(c) y cofnod sy'n ymwneud â'r Cyngor yn—

(i) Rhan II o Atodlen 1A i Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976(**2**),

(ii) Rhan I o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a

(iii) Rhan VI o Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(**3**).

(2) Dirymir y cofnod sy'n ymwneud â'r Cyngor yn—

(a) Atodlen 3 i Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001(**4**);

(b) Rhan 1 o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) 2002(**5**).

(3) Yn adran 5(4) o Ddeddf 1953—

(a) yn lle “the appropriate Commission or Council”, rhodder “the Commission”;

(b) ar ôl “accepting any property”, mewnosoder “situated in England”;

(c) ar ôl “dealing with any”, mewnosoder “such”; ac

(ch) yn lle “the said Commission or Council”, rhodder “the Commission”.

(4) Yn—

(a) paragraff 2(2)(b) o Atodlen 9 i Ddeddf Trydan 1989(**6**); a

(b) paragraff (a) o'r diffiniad o “competent authority” yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Rheolaeth ar Sylweddau Niweidiol) 1992(**7**),

yn lle “Historic Buildings Council”, rhodder “National Assembly”.

(**1**) 1990 p.9.
(**2**) 1976 p.74.
(**3**) 2000 p.36.
(**4**) O.S. 2001/3458.
(**5**) O.S. 2002/2812.
(**6**) 1989 p.29.
(**7**) O.S. 1992/31.